SAMUEL, EDWARD (1674 - 1748), clerigwr, bardd, ac awdur

Enw: Edward Samuel
Dyddiad geni: 1674
Dyddiad marw: 1748
Plentyn: William Samuel
Plentyn: Edward Samuel
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr, bardd, ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd yn Cwt-y-defaid, plwyf Penmorfa, Sir Gaernarfon. Daeth i sylw Humphrey Humphreys, esgob Bangor (hyd 1689), a'i cynorthwyodd i gael addysg a'i gymell i baratoi ar gyfer urddau eglwysig. Ymaelododd yng Ngholeg Oriel, Rhydychen, 19 Mai 1693, fel 'pauper puer'; dywedir iddo raddio (Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph*). Cafodd reithoraeth Betws Gwerfil Goch, 4 Tachwedd 1702, eithr newidiodd honno am reithoraeth Llangar (21 Ionawr 1721), ac aros yno hyd ei farwolaeth ar 8 Ebrill 1748. Cododd ddau fab yn glerigwyr - EDWARD SAMUEL (1710 - 1762), rheithor Llanddulas, 1735-47, a dilyn ei dad yn Llangar yn 1748, a WILLIAM SAMUEL (1713 - 1765), ficer Nantglyn, 1743-65, a thad y Dr. David Samwell.

Ysgrifennodd Edward Samuel rai carolau a cherddi; gweler esiamplau yn (*a*) *Blodeu-gerdd Cymry* , 1759; (*b*) *Llu o Ganiadau, neu Gasgliad o Garolau a Cherddi ... o Gasgliad W. Jones, Bettws Gwerfil Goch* (Croesoswallt, 1798); (*c*) *Eos Ceiriog*, 1823; a (*ch*) B.M. Add. MS. 14961. Cyhoeddwyd pregethau o'i waith, (*Pregeth ynghylch gofalon bydol a bregethwyd yn Eglwys Llangywer, yr ail dydd o fis Mai, 1720. Ar gladdedigaeth Mr. Robert Wynne, diweddar Vicar Gwyddelwern* , 1731 a *Adgyfodiad ein Harglwydd Jesu Grist, wedi ei brofi Mewn pregeth a bregethwyd ar Ddydd Sul y Pasg* , 1766) eithr ei waith gwreiddiol pwysicaf, efallai, oedd *Bucheddau'r Apostolion a'r Efengylwyr* (Mwythig, Thomas Jones, 1704, ac arg. eraill). Cyhoeddwyd hefyd y cyfieithiadau a ganlyn o'i waith - (*a*) *Gwirionedd y Grefydd Gristionogol* (Llundain, 1716, ac arg. eraill; y gwreiddiol gan Hugo Grotius); (*b*) *Holl Ddyledswydd Dyn* (Amwythig, 1718); (*c*) *Prif ddledswyddau Christion : sef angenrhaid a mawrlles gweddi gyffredin a mynych gymmuno* (Mwythig, John Rhydderch, 1722/3; arg. 1793 yng Nghaer - o'r gwreiddiol gan William Beveridge, esgob Llanelwy, y rhan gyntaf wedi ei gyflwyno i'r barnwr Robert Price , Giler, sir Ddinbych, a'r ail ran i Watkin Williams Wynne [*sic*], Wynstay [*sic*]; a (*ch*) *Athrawiaeth yr Eglwys* (Caerlleon, Roger Adams, 1731) - trosiad o ddau waith, y naill gan Peter Nourse a'r llall gan William Wake, archesgob Caergaint. Ceir ffacsimile o lythyr a ysgrifennodd, 1 Mawrth 1703/4, at Edward Lhuyd yn R. Ellis, *Facsimiles of Letters of Oxford Welshmen*.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), i, 44; ii, 138 (arg. newydd darluniedig, 1913)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

H. Blackwell, NLW MS 9273A: A Dictionary of Welsh Biography

NLW MSS 14104 (traethawd ar gyfer eisteddfod genedlaethol Corwen, 1919)

Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)*(London 1947-9)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Edward Samuel

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 73729517

Wikidata: Q18535939

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Davies, W. Ll., (1953). SAMUEL, EDWARD (1674 - 1748), clerigwr, bardd, ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SAMU-EDW-1674

Copïo'r cliprwdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan: Llywodraeth Cymru
Sponsored by: Welsh Government